YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD Mercher, 17 Mai 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G.H. John (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
A. Nicholas, Rural Regeneration Officer
M. E. Pemberton, Leader Programme Co-ordinator
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod
- 10.00 - 10.20 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 31 MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth, 2023, yn gywir.

3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA ARLOESI GWLEDIG

Ystyriodd yr Aelod Cabinet bum cais a oedd wedi dod i law am gymorth ariannol o dan y Gronfa Arloesi Gwledig, a oedd yn rhan o'r Angor Gwledig o fewn Ymyrraeth Cymunedau a Lle Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir Gaerfyrddin. Nodwyd bod y ceisiadau wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf y gronfa gan banel o swyddogion a Phanel Asesu y Gronfa Arloesi Gwledig a Chymunedau Cynaliadwy, fel rhan o'r Bartneriaeth Adfywio ehangach, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth i'w hystyried.

PENDERFYNWYD

3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth gan y Gronfa Arloesi Gwledig yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad::

Yr Ymgeisydd	Dyfarniad
Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru	£44,845
Cymunedau Actif – Cyngor Sir Caerfyrddin	£45,000
Priffyrdd, Cyngor Sir Caerfyrddin / Ramblers Cymru	£45,000
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Ysgol Fusnes Caerfyrddin	£45,000

3.2 peidio â chefnogi'r cais a gyflwynwyd gan Fenter Cwm Gwendraeth Elli am nad oedd yn cyd-fynd â meini prawf allweddol y gronfa.

AELOD O'R CABINET	**DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council